# DINESYDD

## Mai

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1984

RHIF 106


# Y GORAU



Dyma Gerddor Ifanc Cymru 1984, Elenid Owen o Landaf. Enillodd y teitl mewn cystadleuaeth yn Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug, yn ddiweddar. Dewines ar y ffidl yw Elenid, fel y gallwch weld o'r llun ac mae'n ddisgybl yn Ysgol Glantaf.

Enillodd dlws a gynlluniwyd yn arbennig gan Siôn Hughes o Fôn, ynghyd â siec am £500 a chafodd chwarae mewn cyngerdd gyda Cherddorfa Philarmonic Lerpwl. Felly, dyma un ferch nad oes ganddi fwriad yn y byd i roi'i ffidl yn y to.


Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau*

*Yswiriant Bywyd*

*Pensiynau*


# STEDDFOD YR URDD

CALENDR DIGWYDDIADAU WYTHNOS CYHOEDDI EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R CYLCH 1985.

Nos Fawrth, Mai 15
Dawns i blant yng Nghanolfan yr Urdd.

Nos Fercher, Mai 16
Cyngerdd Roc yn Neuadd Dewi Sant gyda Caryl a'r Band a'r Brodyr.

Nos Iau, Mai 17
Cyngerdd Ieuenctid De Morgannwg yn Neuadd Dewi Sant.

Nos Wener, Mai 18
Noson o ddigwyddiadau yn y Cymunedau gan gynnwys - Twmpath Dawns yn Ysgol Glantâf, trefnir gan Gymuned Rhiwbeina.

Dydd Sadwrn, Mai 19
9.30/9.45 Ymgasglu o flaen yr Amgueddfa Genedlaethol, Parc Cathays.

10.00 y bore-Gorymdaith i Neuadd Dewi Sant.

10.45 y bore-Seremoni'r Cyhoeddi.

12.30 ymlaen, Ffair yn y strydoedd.

Dydd Iau, Mai 17; Dydd Gwener, Mai 18; a Dydd Sadwrn, Mai 19
Arddangosfa'r Urdd yn Sgwâr Sant Ioan.

# GOLYGYDDOL

Chwith gorfod cyhoeddi adroddiad trist arall o Grŵp Cymraeg CND eto yn y rhifyn hwn. Beth ddaeth o'r ugeiniau a ddaeth ynghyd i sefydlu'r grŵp hwn? A newidiasant oll eu barn ar ddiarfogi? Neu a ddisgynnodd y bom eisiau a'r Dinesydd heb glywed am hynny?

Ysgwaith, nid yw ond enghraifft arall o'r ysictod sydd fel petai yn llesteirio cynifer o'r gweithgarwch Cymraeg yn y ddinas. Lleisiwyd barn ar y duedd hon lawer tro yn ystod y rhifynnau diwethaf. Canolfan yr Urdd, Canolfan Addysg Oedolion Glantaf, Trefnwyr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd '85. Maent oll wedi dioddef, mae'n ymddangos, o'r diffyg brwdfrydedd ac esgeulustod hwn yn ystod y gaeaf a aeth heibio.

Cydnabu'r Dinesydd erioed nad yw'r fro a wasanaethu'r ganddo yr un peth â'r un fro Gymraeg arall, ac efallai yn awr fod yn rhaid cydnabod nad yw dinas yn ennyn yr un balchder a theyrngarwch â bro wledig. Serch hynny, o gofio hanes diweddar Efrog Newydd, Llundain a Lerpwl, gwelwn nad yw hynny o reidrwydd yn wir ychwaith.

Os nad oes ateb torfol i'r broblem, efallai y dylai'r darllenydd droi i'w gydwybod unigol ei hun i weld pa oleuni sydd yno.

Erbyn ein rhifyn nesaf bydd y dydd bron â bod ar ei hiraf. Bydd y gwanwyn wedi troi'n haf. Bydd golygydd newydd gan y Dinesydd. A bydd gwell tro ar fyd mewn rhai cyfeiriadau eraill hefyd. Gobeithio.

CND CYMRAEG CAERDYDD.

EIN CYFARFOD OLAF?

Cynhaliwyd cyfarfod o'r grŵp Nos Lun, 2 Ebrill. Ond er yr hysbysebu, gwarthus oedd yr ymateb unwaith eto ac yn wyneb hyn, penderfynwyd cynnal cyfarfod pwysig o'r grŵp NOS FAWRTH, 8 MAI YNG NGHLWB IFOR BACH AM 7.30 P.M.

Yn y cyfarfodydd cyntaf cafwyd ymateb calonogol iawn, ond ers mis Medi 1983 disgynodd y nifer a fynychai'r cyfarfodydd i lefel mor isel nes ei gwneud hi'n amhosibl i ni drefnu unrhyw weithgaredd yn llwyddiannus na gwneud penderfyniadau.

Oni cheir cefnogaeth deilwng ym mis Mai, gallwn weld nad oes ond un ateb, sef diddymu'r gangen yn llwyr er mawr siom i'r rhai ffyddlon. Mae hyn yn eich dwylo CHI!

Ymddengys fod y grŵp yn dioddef o'r afiechyd sydd ymysg Cymry Cymraeg Caerdydd - sef diffyg brwdfrydedd a difaterwch dros faterion o bwys! Nid y ni yw'r unig gymdeithas sy'n dioddef, fel y gwelwyd ar dudalen flaen y rhifyn diwethaf o'r 'Dinesydd'.

Felly, os ydych CHI yn cefnogi diarfogi niwcliar dewch draw atom yn y Clwb ar yr 8fed o Fai (hyd yn oed os ydych yn aelod o grŵp CND arall yng Nghaerdydd). Bydd croeso mawr i chi yno!

Diolch am gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

Dylid anfon unrhyw gyfraniad at rifyn Mehefin at:
Y Golygydd, 139 Fairwood Rd. Llandaf, Caerdydd erbyn yr 17eg o Fai.

# Y CALENDR

MAI

11 Yn Ysgol Glantaf. Gwerthiant o blanhigion gardd - blodau a llysiau. Archebion ymlaen llaw drwy ffonio Caerdydd 757383 ar ôl 5 p.m. Gwerthir o 4 p.m. ymlaen.

MAI

11 Cymry'r Wenallt, Cyfarfod Blynyddol, Tafarn y Pantmawr, 8 o'r gloch.

Mai

10 Merched y Wawr, Cangen y Garth, Noson Gymdeithasol. Neuadd y Pentre, Pentyrch.

Mai 12. Gwibdaith y Cymrodorion i Dalacharn, Llanddowror a Dinbych-y-Pysgod.

Mai 14. Cylch Cinio Cymraeg. 1.00 yng Ngwesty'r Parc. Prif Westai: Gareth Lewis Ysw. Is-gofrestrydd Coleg y Brifysgol.

Mai 18. Cyfarfod Blynyddol y Cymrodorion. 7.15 yn Festri'r Tabernacl.

Mehefin 4. Cylch Cinio Cymraeg 7.30 yng Ngwesty'r Parc. Gwesteiwraig: Mallt Anderson.

MEHEFIN

8 Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Caerdydd a'r Cylch 1985, Helfa Drysor, Cymuned Rhiwbeina.

9 Cyfarfod Sefydlu y Parchedig Rhys Tudur yn Y Bala.

10 Cyrddau Mawr yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth. Pregethwr Gwadd: Y Parchedig Huw Ethall, Sgeti.

22 Eisteddfod Yr Urdd Caerdydd a'r Cylch 1985. Cinio a dawns yn Neuadd y Ddinas.

24 Cyfarfod Ffarwelio â Rhys Tudur a'r teulu. Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth.

25 Helfa Drysor - Clwb y Dwrlyn.

# TORTH O FARA

<u>Rhybudd - gall dillad glân niwedio eich iechyd!</u>

Er bod hysbysebion am y glanedydd 'Persil' yn y gorffennol yn sôn am y powdwr yma fel un oedd yn 'fwyn ac yn ofalus' wrth olchi ein dillad, yn ddiweddar mae un math o 'Persil' wedi newid yn ei gyfansoddiad, a chyfeiriwyd at 'Persil Automatic' yn y <u>Guardian</u> yn ddiweddar fel y 'powdwr ecsema'. Fel llawer glanedydd arall ar gyfer peiriannau golchi awtomatig, fe ychwanegir ensymau i'r 'Persil Automatic' newydd.

Gwneir ensymau ar gyfer y glanedyddion hyn gan facteria ac mae'r ensymau'n gallu treulio staeniau ystyfnig oddi ar ddillad hyd yn oed mewn dŵr claear. Ceir y fantais o allu defnyddio tymheredd isel i olchi dillad wrth ddefnyddio glanedyddion ensym, gan ostwng costau cadw dillad yn lân. Ni amhurir yr amgylchedd ychwaith gan yr ensymau a ddefnyddir gan eu bod yn 'bio - degradable'. Ychydig o gostau ariannol ychwanegol sydd i'r gwneuthurwr i ychwanegu'r ensymau i'r powdwr golchi gan eu bod yn rhad iawn i'w cynhyrchu mewn nifer fawr.

OND mae anfanteision hefyd i'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant a'r defnyddwyr. Datblygir adweithedd allergol i'r ensymau gan rai pobl. Ar ôl cyfnod o anghuddiad iddynt gellir dioddef o symtomau tebyg i 'hare fever' neu glefyd croen (rash) gan gynnwys ecsema. Nid oes rhaid cyffwrdd â'r glanedydd i hyn ddigwydd, mae gwisgo dillad wedi eu golchi ynddo yn ddigon i rai sy'n dioddef o allergerddau.
Felly nid oes ond dau ddewis i'r defnyddiwr - prynu glanedydd gwres uchel wedi ei berarogli'n drwm ond heb ensymau, neu brynu un sy'n gweithio mewn gwres isel gyda ensymau. Nid yw 'run o'r ddau yn ddelfrydol ar gyfer unrhyw berson sy'n dioddef o allergerddau. Efallai dylid datblygu asiant rinsio newydd a allai gael ei ychwanegu, fel meddalydd defnydd, i'r dŵr rinsio olaf yn y cylchred golchi.

A ddylem ofyn a oes perygl o ganlyniadau niweidiol fel canlyniad o ddefnyddio'r glanedyddau hyn dros gyfnod o amser?

Tybed a ydych chwi wedi profi unrhyw anhwyldeb croen yn ddiweddar ar ôl defnyddio glanedydd ensym?

Dyma restr o'r glanedyddau sy'n cynnwys ensymau (gyda llaw, nid yw'r bocs sydd gennyf i o 'Persil Automatic' yn dangos bod ensymau yn y glanedydd yma!)

| <u>PROCTER AND GAMBLE</u> | <u>LEVER</u> |
|---|---|
| (sy'n cynhyrchu 41.7% o'r glanedyddau a werthir) | (sy'n cynhyrchu 47.1% o'r glanedyddau a werthir) |
| Ariel | Persil Automatic * |
| Bold * | |
| Daz Automatic | |
| Ariel Automatic * | |

# Y SILFF LYFRAU

Mair Wynn Hughes

<u>YNG NGHYSGOD DINISTR</u>

Tŷ ar y Graig £1.50

Irma Chilton

<u>Y PEIRIANT AMSER</u>

Gwasg Gomer £1.25

Rosemary Sutcliff
(Addas. Gwenan Jones)

<u>MERCH Y PENNAETH</u>

Gwasg Gomer £1.25

Mae Mair Wynn Hughes yn awdures gynhyrchiol, amryddawn ond mae '<u>Yng Nghysgod Dinistr</u>' yn gyfrol na all hi ymfalchio ynddi. Yr hyn a gawn ni yma yw cainc Manawydan fab Llŷr o'r Mabinogi ynghyd â chymeriad ychwanegol o'r enw Gethin fab Lleu. Mewn stori sy'n debyg iawn i'r hyn a gafwyd eisoes gan yr un awdur yn '<u>Yr Un yw'r Frwydr</u>', gwelwn Gethin yn ymladd ar ochr y Goleuni yn erbyn galluoedd y Tywyllwch.

Mae'r gyfrol yn drymlwythog o gyfeiriadau ac enwau chwedlon-llyd a'r ieithwedd yn hynafol a henffasiwn.

Anodd credu y bydd neb yn mwynhau'r gyfrol hon sydd, gyda llaw, yn hynod anfoddhaol ei diwyg.

Croeso i'r '<u>Peiriant Amser</u>', nofel ffantasi hyfryd i blant. Torrodd Megan jwg ei mam ac mae am ennill cystadleuaeth gwisg ffansi er mwyn cael arian i brynu un newydd iddi. Faint o lwyddiant gaiff hi â pheiriant amser Nwncwl Emlyn? A yw'r bocs hyll hwn yn beiriant amser gwirioneddol? Plant annifyr, oedolion caredig, a llawer iawn o hiwmor a chyffro. Cyfrol gampus.

Mae '<u>Merch y Pennaeth</u>' yn gyfrol siomedig iawn o gofio rhai o'r

(i tud 5)

# SALAAM

Wyddech chi fod senedd-dy newydd wedi ei godi yn ardal y dociau yma'n y ddinas? Er nad yw fwy na dau can llath o'r Gyfnewidfa Lo a glustnodwyd ar gyfer y Cynulliad yn 1979,dyma senedd-dy na dderbyniodd sylw gan arweinydd presennol yr wrthblaid! Teml Mohametanaidd neu mosg sydd yma,gyda henuriaid sydd â'r hawl a'r grym i osod y drefn a rhoi'r gair olaf ynglyn ac unrhyw broblemau neu anghytundeb sy'n codi yn eu cymdeithas neu hyd yn oed rhwng gwr a gwraig.

Mae saith mosg i'w cael yma yng Nghaerdydd,ond dyma'r unig un sydd wedi ei hadeiladu'n unswydd i'r pwrpas,yn ystod y ganrif hon. Yn ôl pob tebyg,tafliad carreg o'r safle newydd hwn y codwyd y mosg cyntaf yng ngwledydd Prydain. Yn ystod y ganrif ddiwethaf roedd hynny,pan oedd y dociau'n eu bri a'r tramorwyr yn llifo i mewn.

Wrth ymweld â'r mosg newydd,yn Alice Street,cefais groeso cynnes gan y 'Sheik',sydd,gyda llaw,yn frodor o Gaerdydd gyda'i acen yn pwysleisio hynny. Mae'n amlwg o'r tu allan nad sinema na swyddfa heddlu yw'r adeilad,fel y gwelir o'r braslun. Mae cromen fawr o gopr yn ffurfio'r rhan fwyaf o'r tô a lliw brown sydd i'r muriau o briddfaen.

Wedi mynd drwy'r drysau pren i mewn i'r cyntedd,roedd yn rhaid tynnu esgidiau a'u cadw ar y silffoedd gyda esgidiau'r dynion eraill. Wrth gwrs,roedd mynedfa arwahan i'r merched gyda'r holl adnoddau angenrheidiol mewn rhan arall o'r adeilad. Cyn yr ymweliad yma,roeddwn wedi tybio mai rhesymau crefyddol Mohametanaidd yn unig oedd yn gyfrifol am addoli'n droednoeth;nid felly y mae! Pan gofiwch fod y Mohametan yn gweddio'n rheolaidd bum gwaith y dydd a bod yn rhaid iddo weddio gyda chorff glân,dillad glân ac ar dir glân,drwy dynnu'i esgidiau mae'n cadw'r carped yn lân. Mae adnoddau ar gael ar gyfer golchi'r corff yn lân cyn mynd i mewn i'r neuadd weddio.Gan nad gweddio ar Allah oedd y rheswm dros fy ymweliad,nid oedd angen i mi ymweld a'r ystafell honno.

Profiad rhyfedd i gapelwr oedd cerdded i mewn i'r ystafell weddio a oedd yn gwbl ddi-ddodrefn. Er mai sibrwd gyda'r 'Sheik'oedd yn naturiol i mi,nid felly oedd y drefn yno. Gan fod y mosg yn agored pob awr o'r dydd,'roedd tua pymtheg o unigolion(dynion wrth gwrs) yno yn gweddio. 'Roedd rhai yn sefyll, un neu ddau yn gorwedd ar wastad eu cefn,a'r gweddill yn penlinio,i gyd yn wynebu Mecca. Siaradodd y 'Sheik' a mi ar lefel naturiol ei lais,yng nghanol hyn oll,heb aflonyddu ar neb. Daeth yn amlwg mai ffordd o fyw oedd yma.

Nid dyma unig bwrpas y neuadd weddio gyda'r gromen a'r ffenestri lliw, yn effeithiol iawn yn creu y naws a fwriadwyd gan y cynllunwyr. Mae mosg yn fwy na dim ond addoldy,mae'n ganolfan ddiwylliannol yn ogystal a senedd-dy fel y crybwyllwyd eisioes. Ceir yma ysgol,hefyd,i ddysgu'r plant yn y ffordd Mohametanaidd ac mae'r aelodau wedi galw athro o Brifysgol Cairo i'w hyfforddi. Bydd ei gartref mewn rhan o'r adeilad.

Cymharol dlawd yw ardal y dociau ond er hynny llwyddodd y Mohametaniaid, drwy dderbyn rhoddion hael o wledydd Arabaidd,i adeiladu'r ganolfan hon sy'n galon i'w cymdeithas.



Mosg Alice Street,Caerdydd

# PYTIAU

Chwith gan amryw o aelodau yr hen Gôr Aelwyd oedd clywed am farwolaeth sydyn James Turner yn 51 oed. Yr oedd James yn ŵr busnes poblogaidd iawn yn Ne Cymru; yr oedd hefyd yr un mor boblogaidd am rai blynyddoedd fel aelod ffyddlon o Gôr yr Aelwyd. Hir y cofir am y tripiau i'r Almaen! Dysgodd Gymraeg yn y Ganolfan. Cydymdeimlir yn ddwys â'i weddw ac â'i ferch fach. Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa yng Nghapel Tabernacl nos Wener, Ebrill 27ain.

---------

Llongyfarchiadau cynnes i Martin Cook, dirprwy brifathro Ysgol Gymraeg Y Wern ar ei briodas yn ddiweddar. Bydd Martin ac Adrianne yn ymgartrefu ym Machen.

---------

Llongyfarchiadau cynnes i Elen Ogwen, Bill Raybould ac Arwel George ar eu penodiad yn Arolygwyr Ei Mawrhydi. Trist yw cofnodi serch hynny y bydd Bill a'r teulu yn gorfod ein gadael am Fangor. Estynnwn ein cyfarchion cynhesaf iddynt.

Angen merch ifanc i rannu tŷ yn ardal Llanedeyrn gyda dwy arall - tŷ modern, gwres canolog, tair ystafell wely.
Ffon: Caerdydd 733598.
(rhwng 5 p.m. a 7 p.m.)

---

CYMDEITHAS Y DYSGWYR,
TŶ'R CYMRY, 11 HEOL GORDON.

9ed MAI am 8.00 O'R GLOCH -
Noson gyda:- BASIL DAVIES.

Gwahoddwn chi'n gynnes iawn i
GYMDEITHAS Y DYSGWYR

Ble? Tŷ'r Cymry,
11 Heol Gordon,
Caerdydd.

Pryd? Unwaith y mis, ar yr ail Nos Fercher am 8.00 o'r gloch.

Ac yn arbennig ym Mis Mehefin ar 13eg. Noson dan ofal:-
ELEN OGWEN.

Ysgrifenyddes
Cymdeithas y Dysgwyr
Margaret Gardner
Ffôn:- 691339.

(o tud 3)

cyfrolau gwefreiddiol a gynhyrchwyd gan Rosemary Sutcliff. Darllenwn am ferch y pennaeth ganrifoedd yn ôl, a'r carcharor o Wyddel. A all hi ei arbed rhag cael ei aberthu. A fydd e'n llwyddo i ddianc?

Mae'r stori yn araf ac yn ail-adroddus, a'r fersiwn Gymraeg hon yn anfoddhaol o ran cywirdeb iaith a threfnusrwydd. Dechreuwn trwy ddarllen Pennod 1 - ond dyma'r unig bennod yn y gyfrol!

PHILIP WYN JONES.

Roger Boore (addas)
CYFRES DAFYDD
Gwasg y Dref Wen £1.40 yr un
Roger Boore (addas)
CYFRES GWLEDYDD
Gwasg y Dref Wen £2.35 yr un
Roger Boore (addas)
CYFRES STORIAU ANIFEILIAID
Gwasg y Dref Wen £2.35 yr un

Mae chwarae plant bach yn amlwg iawn yn y ddwy gyfrol ddiweddaraf yng Nghyfres Dafydd.

Yn y gyfrol 'Dafydd yn Codi Tŷ' ceir darlun byw o fachgen bach wrth ei fodd yng nghanol y sgriwiau, yr hoelion, y morthwyl ac ati. Mae Dafydd eisiau help ond fel arfer mae Mam yn rhy brysur a Dad yn darllen papur. Sefyllfa gredadwy! Ta beth, mae Tedi'n achub y dydd. Diweddglo hapus iawn - sef parti yn y tŷ newydd.

Yn y gyfrol 'Dafydd a Sara yn Chwarae' ceir hen gist enfawr sy'n llawn o drysorau i blentyn a'r rheiny'n llifo allan yn gotiau hir, hetiau mawr a bagiau llaw.

Dyma ddwy gyfrol ddymunol a lluniau deniadol ar bob tudalen yn llawn dychymyg.

Cyweirnod y llyfrau yn y gyfres 'Gwledydd' yw eu bod yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu am fywyd a diwylliant glwedydd tramor. Defnyddir iaith syml sy'n addas iawn i ddysgwyr yn ogystal ag i Gymry Cymraeg.

Yn y gyfrol 'Ffrainc' mae toreth o ffotograffau lliw godidog e.e. Paris: Y Tŵr Eiffel, afon Seine, a'r caffes sy mor nodweddiadol o Ffrainc. Wyddoch chi fod dros wyth cant o wahanol fathau o gaws yn Ffrainc? Taith i Carcasonne ac i Alsace, yna i Lydaw a llun hyfryd o'r plant yn eu gwisgoedd traddodiadol.

Eto mae'r gyfrol 'Sbaen' mor fyw a chyffrous â 'Ffrainc'. Ymweld â Madrid, Barcelona, hanes Columbus, lluniau gwych o'r Matadors a'r dawnswyr 'flamenco'. Mae digon o gyfle yma i brofi tipyn o fywyd Sbaen.

Yn y tair cyfrol yn y gyfres 'Storiau Anifeiliaid' ceir casgliad o chwedlau cymharol fyr yn llawn amrywiaeth i ddenu pob plentyn.

Cynyrchiadau lliwgar a deniadol ydynt, ac mae'r lluniau gan Nick Price yn llawn hiwmor ac yn arbennig o effeithiol. Graddolir yr iaith yn ofalus iawn ar gyfer y dysgwyr ond ar yr un pryd mae'n addas i Gymry Cymraeg.

Mae yma ugain o chwedlau yn cynnwys hen ffefrynnau fel 'Y Llwynog a'r frân', 'Yr Ysgyfarnog a'r crwban' ac ati. Chwedlau bendigedig gyda gwers ym mhob un ohonynt.

Wyddoch chi sut y cafodd crwban y môr ei gragen? Glywsoch chi am 'Y Basilisg Creulon' a'r 'Griffon Dychrynllyd'? Wel, ewch ati i ddarllen y gyfres ardderchog yma.

ANN ROGERS.

YR AGORIAD.

"Yr Iaith Swyddogol a'r Banc" gan Leigh Verrill-Rhys.

Yn ddiweddar, bu apêl yng nghylchgrawn yr Undeb Celtaidd, CARN, gan Gylch Llundain o'r Undeb i brotestio yn erbyn y ffaith nad ydy Banc Iwerddon, Cangen Caerdydd, yn arddangos "Banc na hÉireann" wrth ochr y Gymraeg a'r Saesneg. Ddechrau mis Ebrill, fe newidiodd Banc Iwerddon y sefyllfa wrth roi yr enw Gwyddeleg uwchben y lleill. Nawr, mae Cylch Llundain wedi gofyn am yr un weithred tuag at Fanc Unol Iwerddon.

Yn ystod wythnos y Pasg, bues i yn Nulyn am ddiwrnod. A dweud y gwir, doeddwn i ddim yn synnu i sylwi nad ydy'r ddau Fanc cenedlaethol hyn yn arddangos yr un gair o Wyddeleg tu allan i'w drysau. Mewn gwirionedd, heblaw enwau'r heolydd ac ar draws drws Undeb yr Argraffwyr ac ambell hysbyseb ddiodydd, ni welais i'r iaith Wyddeleg yn cael ei defnyddio llawer yn y Brifddinas.

Yn y papur newydd, ar dudalen rhaglenni teledu, fe sylwais ar raglenni Cymraeg S4C mae'r Gwyddelod yn eu derbyn, cryn dipyn mwy na sydd ar gael mewn Gwyddeleg! Er bod Llywodraeth Iwerddon wedi sefydlu'r iaith yn swyddogol fel iaith y genedl, dim ond tipyn bach o'r iaith sydd ar y teledu neu'r radio. Rhywsut, mae'r Gwyddelod wedi cadw eu hiaith ar wahan i'w bywyd dyddiol hyd yn oed i'r graddau nad ydyn nhw'n ysgrifennu'r iaith mewn llythyrennau cyfoes ond cadw at yr hen ysgrifen Geltaidd arbennig sy'n gwahanu'r iaith yn fwy.

Y pethau pwysicaf y mae'r Cymry wedi'u gwneud ar ran eu hiaith

(i tud 7)



# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Yn ôl ym mis Chwefror fe gynhaliwyd Ymryson dan nawdd Cymdeithas Ddiwylliannol Heol y Crwys. Y Meuryn anghymarol oedd Islwyn Jones, hwnnw yn ei afiaith arferol yn gyrru'r beirdd i ben Parnasws ac yn ôl. 'Does dim rhyfedd i'r beirdd gael cymaint o hwyl yno er mai tenau ar y naw oedd y gynulleidfa, o ran nifer beth bynnag. Fel y dywedodd Aled Gwyn:

> Yn Heol y Crwys mor hael y croeso, -
> a mwya' hynod mae'n wan 'ma heno.

Dyma rai o'r atebion a gafwyd i'r tasgau gosodedig:

> Heulwen a ddwg lawenydd;
> Dwg machlud olud i'r dydd. (J.W.)

> A fo'n berchen lawenydd,
> Hwn a ddaw â'i nos yn ddydd. (A.G.)

> Dioer, a'm traed yn oeri,
> Rhy Mair ei chysur i mi. (G.R.)

> I'r bath yn ewn, mewn â mi,
> Y dŵr sydd wedi oeri! (E.L.)

> Bant â'r cart, rhed i'th gartref, -
> Hen dro i ti ddod i'r dref. (H.G.)

> Hurtrwydd yw aros gartref,
> Daw'r hwyl ar strydoedd y dref. (O.A.)

> Un dawnus ydyw Deiniol;
> Er ei dad, deil ar y dôl. (G.R.)

> Hyd lwyn a gwaun daw heulwen a gwennol
> a suo gobaith mae'r gwyrdd ysgubol. (A.O.)

> Hyd lwyn a gwaun daw heulwen a gwennol
> i roi ar y gwŷdd batrwm tragwyddol. (T.A.W.)

Ond penllanw'r ymryson oedd yr englynion a gomisiynwyd i Arglwydd y Taleithiau Unedig, a dyma 'nhw:

> Ai rôg yw Ronald Reagan, yr actor
> sy'n agor yn egwan?
> Ei lef, wrth wneud cyflafan,
> a ddyry dŷ'r wadd ar dân. (J.W.)

> Y cowboi wrthi'n ceibo ei seler
> i'w selio a'i gwato
> fel pan ddêl cân y tanio,
> yn glou fe fydd Ron dan glo. (H.G.)

> Hunllef yw'r geiriau tanllyd uffernol
> o Galiffornia a gyfyd.
> O'i ragfarn y daw drygfyd;
> Cow Boi a bair dranc y byd. (A.O.)

Dyna rôg yw'r dyn Reagan, - yn hela
am hawliau ymhobman
i wasgar mwy o arian
i'n lladd mewn dinas a llan. (G.R.)

Hen ham a'i geg yn symud yw 'nacw,
Pinocio mewn pulpud.
Rwdlan wna'r pwped rhydlyd;
darn o bren yn ben y byd! (E.L.)

Un lledfyw yw'r gynulleidfa'n Y Glôb;
am gael hwyl lle diddan
anrwyl yw, a'r ffilm yn lân;
y drwg yw Ronald Reagan. (T.A.W.)

'Roedd rhai o'r beirdd a gafodd goleg yn Lloegr am ddangos eu meistrolaeth ar iaith y wlad hynod honno, ac 'rwy'n gobeithio y bydd Golygydd y Dinesydd yn ddigon eangfrydig i ganiatau i'r pennill hwn o'u heiddo ymddangos er ei fod ryw fymryd bach yn enllibus efallai.

A-yelling like Richard Millhouse, I am,
like Jimmy the Beanhouse,
a nutter in the Whitehouse,
I make more than Micky Mouse!

'Rwy'n dal i ddisgwyl eich cerddi. Y cyfeiriad, fel arfer, yw 'Penmaen', 31 Heol Don, Yr Eglwys Newydd.

* * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * * *


# Ysgrifennydd/ Ysgrifennyddes
## (Ffarmio/Cefn Gwlad)

Y mae gennym swydd yng Nghaerdydd ar gyfer Ysgrifennydd/Ysgrifennyddes effro a gweithgar i fod yn gefn i'n rhaglenni Ffarmio a Chefn Gwlad. Rhaid i'r person a benodir fod yn hyddysg yn y dulliau ysgrifennyddol arferol a bod a'r gallu i drefnu swyddfa brysur.

Cyflog, yn cynnwys atodiadau, £6,115 y flwyddyn ynghyd a manteision gweithio ardderchog.

Dylai'r ymgeiswyr cymwys ysgrifennu am ffurflen gais yn cynnwys amlen stampiedig ac dyfynnu cyfeirnod DI/320 i'r Rheolwr Staffio, HTV Cyf, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd, CF1 9XL.

YR YDYM YN GYFLOGWR CYFLE CYFARTAL

HTV


## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Eynon Williams a Delyth Jones ar eu priodas yn ddiweddar.


HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD


(o tud. 6)
**ydy defnyddio'r iaith ar gyfer popeth yn ddyddiol a mynnu bod rhaglenni teledu a radio ar gael i bawb ac nid yn unig i'r bobl wledig a'r deallus fel sydd wedi digwydd yn Iwerddon, mae'n debyg.**

**Mae'n bwysig iawn i ysgrifennu sieciau yn Gymraeg hyd yn oed os ydyn ni'n bancio gyda Banc na hÉireann. Tybed os ydy sieciau banciau yn Iwerddon yn nwy iaith y wlad a thybed faint o Wyddelod sy'n defnyddio iaith 'swyddogol' y wlad wrth llenwi'r sieciau?**

**GEIRFA:-**

| | |
|---|---|
| **gweithred,** | **action.** |
| **sefydlu,** | **establish.** |
| **gwahanu,** | **separate.** |
| **y deallus,** | **the intelligentsia.** |


TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.


Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn).

CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD


CYSTADLEUAETH RHIF 41

Daeth naw datrysiad cywir i law, a'r tro hwn yr enw a ddaeth o'r het oedd eiddo Mrs Gwenllian Gwyn Jones, 3 Heol Coedcae, Yr Eglwys Newydd. Bydd tocyn llyfrau Cymraeg am £5 ar ei ffordd iddi gyda hyn.

Y datryswyr cywir eraill oedd:- M.Davies, Rookwood Avenue, Llandaf; M.J. Pentwyn; Julia Lloyd, Parc y Rhath; B.H. Cyncoed; W.D. Y Tyllgoed; M.Davies, Fairwood Road, Llandaf; Robin Dewi Nantglyn, Yr Eglwys Newydd; C.D. Cyncoed.



GŴYL CYHOEDDI EISTEDDFOD CAERDYDD

Cynhelir Gŵyl Fawr Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Cylch 1985 ganol mis Mai, gydag uchafbwynt yr wythnos - Seremoni'r Cyhoeddi - ar ddydd Sadwrn, y 19eg o Fai.

Disgwylir y bydd dros 1,000 o blant yn gorymdeithio drwy strydoedd y brifddinas ar y bore dydd Sadwrn i Neuadd Dewi Sant lle bydd Seremoni'r Cyhoeddi yn cychwyn am 10.45 o'r gloch.

Gofynnir i bawb sy'n bwriadu bod yn yr orymdaith ymgasglu tu allan i'r Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays rhwng 9.30 a 9.45 o'r gloch er mwyn cychwyn yr orymdaith am 10 o'r gloch.

Dywedodd, Mr. Tom Evans, sy'n trefnu'r orymdaith, y byddai plant o ysgolion cynradd ac uwchradd Caerdydd, o ysgolion meithrin ac o adrannau'r Urdd yn cymryd rhan. Mae yna groeso i unrhyw grŵp arall ymuno yn yr orymdaith ond iddynt gysylltu yn gyntaf â Mr. Evans yn Ysgol Coed-y-Gôf, rhif ffôn:- Caerdydd 564585.

Y ffordd a gymerir gan y cerddwyr fydd o'r Amgueddfa, lawr Heol-y-Parc, heibio'r Theatr Newydd, i Heol y Frenhines, ar hyd Heol y Frenhines, hyd at Sgwâr Sant Ioan, troi wrth siop y Bwrdd Nwy ac ar hyd Stryd Sant Ioan i Neuadd Dewi Sant.

Arweinir yr orymdaith gan fandiau ac fe fydd Byrti Bws, y cymeriad sy'n symbylu'r Eisteddfod, yn siwr o fod yno rywle ymhlith y cerddwyr.

Ar ôl i'r seremoni orffen, fe fydd y miri a'r dathlu yn parhau drwy'r prynhawn gyda Ffair y tu allan i Neuadd Dewi Sant ac yn Heol y Frenhines. Ymhlith yr atyniadau, bydd stondinau, gêmau, dawnsio gwerin, canu gwerin, bandiau ac arddangosfeydd.

Gwahoddodd Mr. Malcolm Thomas, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, holl Gymry Caerdydd a chefnogwyr y bywyd Cymraeg yn y ddinas i ddangos eu lliwiau ar adeg y cyhoeddi ac i ymuno yng ngweithgareddau'r wythnos. Buasai cefnogaeth gref i'r orymdaith yn gyhoeddusrwydd da i'r 'steddfod, meddai.

Ychwanegodd Mr. Thomas, "Mae yna frwdfrydedd mawr ymysg rhai o'r cymunedau a ffurfiwyd i hybu gwaith yr Eisteddfod ond araf eu hymateb yw llawer o'r gweddill. Bydd wythnos y Cyhoeddi yn gyfle gwych i'r cymunedau ddarparu digwyddiadau yn eu cylchoedd eu hunain ac i adeiladu tuag at eu gwaith yn y flwyddyn sydd i ddod".

Apeliodd Mr. Thomas hefyd am gefnogaeth i'r cyngherddau a'r dawnsfeydd a gynhelir yn ystod wythnos y cyhoeddi. (Ceir y manylion am yr holl ddigwyddiadau yng Nghalendr y Dinesydd).

O ddydd Iau hyd ddydd Sadwrn wythnos y cyhoeddi cynhelir arddangosfa arbennig yn Sgwâr Sant Ioan i gyflwyno'r Urdd, a'r Eisteddfod yn arbennig, i bobl Caerdydd. Mae eisiau grwpiau o weithwyr i redeg yr arddangosfa, i siarad â'r cyhoedd am yr Urdd ac i werthu nwyddau. Gofynnir i unrhyw un a all helpu gysylltu â Gareth James, Trefnydd Eisteddfod a Gŵyl, Urdd Gobaith Cymru, 127, Station Road, Port Talbot, Ffôn:- 0639 887149.

Ar ddiwedd mis Mai fe fydd Eisteddfod Caerdydd yn sefydlu stondin yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Yr Wyddgrug, ac eto, mae eisiau gweithwyr i redeg y stondin honno. Y cysylltiad eto yw Gareth James.

Ceir adroddiad a lluniau o'r Ŵyl Gyhoeddi yng Nghaerdydd yn rhifyn nesaf 'Y Dinesydd'.

---

CYMUNED PARC-Y-RHATH A GLAN-Y-LLYN.

Ddarllenwr hoff, os ydych yn arddel naill ai Parc-y-Rhath neu Glan-y-llyn fel eich ardal chi yna mae'r hyn sydd i ddilyn yn arbennig ar eich cyfer chi.

Fel y gwyr pawb sydd o gwmpas ei 'bethe' mae 'Steddfod yr Urdd yma yng Nghaerdydd yn 1985; ac er mwyn codi arian rhannwyd y ddinas yn gymunedau a rhoi nôd ariannol i bob cymuned. Felly, dyma ni a'n nôd yw £1,000 erbyn yr Ŵyl.

Ar wahan i'r llyn, does dim canolfan hwylus i'r ardal, a hyd yn hyn 'does neb wedi cael syniad o weithgaredd ar y llyn - os oes awydd trefnu regatta ar rywun dyma'i gyfle.

I ddod nôl i dir yr ydym am ofyn i unigolion neu ddeuoedd drefnu rhywbeth all godi swm bach o arian at ein nôd.

Dyma rai syniadau - parti coffi gyda stondin bach o bethau i'w gwerthu.

Cwyn y dynion yw mai'r gwragedd sy'n cael y cyfle - arddwyr, gwerthwch beth o gynnyrch eich gardd neu'ch tŷ gwydr i'ch cymdogion am bris rhad, a rhowch yr elw at y nôd.





Os nad yw'r un o'r ddau beth uchod yn apelio beth am gasglu'ch arian cochion am fis o amser (mwy neu lai), neu beth am gymryd rhan yn ein cynllun gwau blanced. Gwau un sgwar (neu fwy) o faint 28 pwyth, 48 rhes - gweill rhif 7, a chael £2 gan eich ffrindiau am bob sgwar. Anfon y sgwariau at Ann Rosser, 17 Lakeside Drive.(Ffôn:757242)

Os yw hyn oll y tu hwnt i chi, eisteddwch ac ymlaciwch oherwydd mae'r dewr redwr Arnott Hughes am redeg ym marathon Caerdydd yn enw'r Urdd a'r gymuned, yr unig beth fydd i chi i'w wneud wrth eistedd fydd noddi Arnott. Cofiwch fod y râs yn mynd heibio'r llyn ddwywaith. Daw manylion pellach am hyn y mis nesaf.

Os oes gennych syniad arall am weithgaredd ffoniwch unrhyw un o'r bobl hyn -

| | |
|---|---|
| Ann Rosser | 757242 |
| Rhiannon Stanley Jones | 751038 |
| Buddug Lloyd | 496803 |
| Mallt Anderson | 757383 |
| Diane Hughes | 755124 |
| Anne Rees | 482922 |

Os nad oes dim a nodwyd yn apelio atoch beth am i chi dreio colli pwysau a chael rhai o'ch ffrindiau neu'ch teulu i'ch noddi - punt y pwys neu ta faint bynnag yw'ch pris chi am eich bloneg. O wneud hyn mi fyddwch mewn gwell siap i wynebu'r haf a 'Steddfod 1985.




CYDWEITHREDIAD YN CREU ELW.

Ddiwedd Mawrth bu noson eithriadol o hapus yng Ngwesty Llety'r Cymro, pryd y cyflwynwyd siec am £4,250 i Mr. Glyn Jones, Ysgrifennydd Ariannol Eisteddfod yr Urdd '85, sef elw y Cyngerdd a gynhaliwyd yn Neuadd Dewi Sant fis Chwefror. Trefnwyd y Cyngerdd gan Gymdeithasau Rhieni Ysgolion Y Wern a Melin Gruffydd. Llongyfarchiadau calonog iddynt ar eu llwyddiant a'u gwaith caled, a diolch arbennig i Elaine Pye (Ysgol Y Wern) a Dilys Jones (Ysgol Melin Gruffydd), prif drefnwyr y Cyngerdd.

Yn y llun:- Powys Jones, Gareth Evans, Mac Hughes, Glesni Whettleton, Dilys Jones, Glyn Jones, Elaine Pye.

Teg hefyd nodi i'r holl artistiaid roi o'u gwasanaeth yn rhad ac am ddim, sef Côr Orpheus Treforys, Helen Field, Dennis O'Neale, Delme Bryn Jones, Ingrid Surgenor ac Iwan Thomas. Gwerthfawrogir yn fawr iawn eu parodrwydd i gymryd rhan. Syr Cennydd Treherne oedd Llywydd Anrhydeddus y Cyngerdd ac fe'i noddwyd gan Syr Julian Hodge, Partneriaeth Lawray, Philip Morgan Cyf., Peter's Savoury Products Cyf., Gwesty'r Phoenix, Husband Bros., a Chwmni Cambrian Tyre. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu cyfraniadau hael. Yn bennaf oll, pleser sylweddoli y gall dwy ysgol Gymraeg yn y brif-ddinas gydweithio mor hapus er budd Eisteddfod yr Urdd.
Dymuna'r ddwy Gymdeithas Rhieni hefyd ddiolch yn gynnes iawn i Mr. a Mrs. Glyn Jones am eu croeso cynnes yn Llety'r Cymro ac am ddarparu bwyd mor odidog ar eu cyfer.

# O'R SEDD GEFN



The Dresser (Cyfarwyddwr:- Peter Yates; gydag Albert Finney, Tom Courtney ac Edward Fox).

Pobl sydd, am amryfal resymau, yn methu dygymod â bywyd go iawn a welir yn y ffilm hon. Actorion a phobl y theatr ydynt bob un. Mae Sir (Albert Finney) yn actor enwog sy'n byw ar ogoniant y gorffennol, am fod ei arddull ef o actio a'i reolaeth ar y cwmni eisioes ar fin diflannu erbyn yr Ail Ryfel Byd (cyfnod y ffilm). Norman, (Tom Courtney) yw'r dyn sy'n ei wisgo bob nos ac yn edrych ar ei ôl mewn amryw o ffyrdd eraill.

Prif orchest y ffilm yw ei sgript. Addasiad Ronald Harewood o'i ddrama ei hun. Mae'n clecian gyda ffraethineb bachog a threiddgar. (Dywed Sir, ar ôl bod yn gweld un o'i cyfoedion enwog yn chwarae Hamlet, "I was pleasantly disappointed").
Ond comedi drasig sydd yno. Drama chwerw-felys. Mae gwrthgyferbyniaeth ar bob llaw. Goleuadau, set ac effeithiau sain ysblennydd o digri. Llymdra siabi yr ystafell wisgo. Bombast Sir am mai ef yw'r seren. Ei ansicrwydd dagreuol am ei fod yn gwybod bod oes y theatr a adnabu ef yn dod i ben.

Tanlinellu'r hyn oll yn effeithiol gan y gwaith camera a goleuo a chan yr actio. Yn haeddiannol, canmolwyd Finney a Courtney i'r cymylau eisioes. Mae pawb arall yn rhagorol hefyd. Eileen Aitken yn rhyfeddol felly.

Ar wahân i'w rhagoriaethau eraill, gellir annog y ffilm hon fel comedi yn anad dim arall. Bwch i'w gweld.

# COLOFN Shân Emlyn

Un peth na fyddai byth yn 'i wneud ydy darllen ôl rifynnau o fy ngholofn. Yn y lle cynta', rhag imi gywilyddio, ac yn yr ail le rhag ofn imi sylweddoli pa mor amal yr ydwi'n ail adrodd fy hun. Fy mhrif symbyliad wrth gyfrannu'r golofn hon yn fisol yw fy nheyrngarwch i bapur bro hynaf Cymru. Wel, medda chi, be sy' gen i'r mis yma?

Mae 'na gerrig milltir i bob blwyddyn i mi - Y Nadolig; Y Pasg; Gwyliau Ffilmiau; Eisteddfod yr Urdd; Llangollen; Y Genedlaethol, ac yna ein gwyliau haf, pryd y byddaf yn amcanu prynu anrhegion Nadolig. A dyna'r cylch yn grwn.

'Rwyf eisioes wedi croesi trothwy cyfnod y gwyliau ffilmiau. Wythnos yn ôl bum ym mhumed Gŵyl Ffilm a Theledu'r Gwledydd Celtaidd yma yng Nghaerdydd, ac ar hyn o bryd rwyf yn hel fy mhac i gychwyn am Cannes i'r Ŵyl Ffilmiau a Theledu yno.

Arwyddair yr Ŵyl Geltaidd eleni oedd "Chwe Gwlad - Un Enaid". Arwyddair fel y basa chi'n disgwyl oedd yn fy mhlesio'n arw. "Dyma hi'n rhamantu eto" medda chi - ella wir. Yn yr Ŵyl roedd 'na gynrychiolaeth o'r chwe gwlad, ag mi roedd 'na agosatrwydd yn ein hymwneud â'n gilydd.
Bu dadlau brwd a sawl gwahaniaeth barn - nid rhwng y gwledydd a'u gilydd, ond rhwng gwahanol garfannau o fewn pob gwlad - yn unigol. Mae'n amlwg bod cecru ymysg ein gilydd, yn nodwedd o bob gwlad Geltaidd!

Nodwedd amlycaf yr Ŵyl oedd bod Cymru ar bedastl ac yn cael ei chyfri'n wlad Geltaidd lwyddiannus - o ran bywiogrwydd yr iaith, system addysg, ac wrth gwrs S4C. Teimlais yn anghysurus droeon, er carediced ymateb y gwledydd eraill. Oedd yna duedd inni ganmol ein hunain ac o'r herwydd, ein bod yn swnio'n hunan foddhaus? Gochelwn i gyd rhag hyn. Hawdd twyllo ein hunain bod popeth yn dda, tra yng nghwmni pobol o bum gwlad arall sydd heb feddu nemor ddim o'n breintiau ni.

Efallai pan af i'r Ŵyl Ffilmiau yn Cannes, lle bydd cyfundrefnau teledu cryfa'r byd yn arddangos eu gwaith, y bydd hi'n ysgytwad imi weld a sylweddoli maint fy myd Cymraeg Celtaidd bach i. Bydd, fe fydd Superted, Wil Cwac Cwac, a llawer o raglenni Cymraeg eraill ar gael yno, a byddaf yn ymfalchio yn hynny.

"Chwe gwlad - Un Enaid" syniad rhamantus ac afreal? Efallai mai'r llais sy'n mynnu canu yn fy mhen wrth feddwl am Gymru yw, tristwch y sefyllfa mai yr un mor afreal fyddai'r arwyddair "CYMRY - un enaid?"

---

Ar y 26ain o Fai bydd Eglwys Efengylaidd Caerdydd yn cynnal dau gyfarfod yn y Neuadd Goffa, Lon Uchaf, Rhiwbeina. Yn y p'nawn, am 3 o'r gloch, bydd Mr. Keith Lewis (Aberystwyth) yn arwain trafodaeth ar 'Y Teulu Cristnogol'. Gyda'r hwyr, am 6 o'r gloch, fe bregethir gan y Parch. Sulwyn Jones (Dowlais). Paratoir te rhwng y cyfarfodydd, ac mae croeso cynnes iawn i ymwelwyr i ymuno â ni.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal,
Ffôn: Caerdydd 43367



## TRAIDCRAFT CYMRU

(neu Beth sy'n digwydd yn Eglwys Heol y Crwys?)

Tybed a glywsoch chi'r son a'r siarad am Mrs Eluned Rowlands a'r pethau bydd hi'n gwerthu yn Eglwys Heol y Crwys? Mae pawb yn gwybod am ei gwaith ynglyn â Chymorth Cristnogol dros gyfnod o flynyddoedd ond glywsoch chi ei bod hi bellach yn gwerthu te a choffi a bricyll a mêl, ac yn siarad gyda brwdfrydedd amdanyn nhw ac am lu o bethau eraill. Ac oes yna wirionedd yn y si mae hi a hi yn unig o blith holl aelodau Eglwysi Cymraeg Caerdydd sy'n ymhel a'r busnes yma?

O holi'n fanylach fe gawn mai ei bwriad hi yw cynorthwyo'r Trydydd Byd drwy gyfrwng TRAIDCRAFT a dyna i chi enw clyfar sy'n gyfuniad o'r geiriau Saesneg am "fasnachu" a "chynorthwyo".

Mae'n wir fod masnach byd-eang a chyllid rhyngwladol yn ddieithr i'r mwyafrif mawr ohonom, ond mae'n wir hefyd y gall pob un ohonom, fel defnyddiwr a phrynwr, ddylanwadu ar y ddeubeth hyn yn y pen draw. O feddwl yn ddwys sut y gwariwn ein harian a sut y defnyddiwn ein hadnoddau fe allwn fod o gymorth i'r bobl hynny yn y byd sy'n dlawd ac yn byw dan anfanteision dybryd.

Dyna wna Lun Rowlands yn ei ffordd fach hi ei hun drwy werthu crefftwaith a wnaed gan drigolion y Trydydd Byd, papur wedi'i ail-gynhyrchu, bwydydd cyflawn a the a choffi, reis a chnau, bricyll a mêl a molasys a ddaw yn wreiddiol o ffynonellau sy'n gwarantu cyflogau teg.

Mae hefyd yn rhoi cyfle i'w chyfeillion a'i chydnabod werithredu'n unol a'u consarn am rai o broblemau'r Trydydd Byd drwy brynu'r pethau hyn, a thrwy drafod y fath bynciau yn y cyfarfodydd ac ar yr achlysuron pan fydd y gwahanol eitemau ar werth. Llwyddwyd hefyd i gael pobl ifanc Eglwys Heol y Crwys i gyfrannu i'r gwaith da trwy drefnu noson o brynu a gwerthu'r te a'r coffi a phethau eraill mewn arwerthiant lle'r aeth yr elw i Gymorth Cristnogol.

Y cwestiwn sy'n codi bellach yw hyn - a gaiff Lun Rowlands gadw'r monopoli sydd ganddi, neu a oes yna fudiadau eraill, Cymraeg a Chymreig yn y brifddinas sy'n barod i gymryd rhan yn y gwaith da? Mae i fyny i chi, darllenwyr "Y Dinesydd".
Os oes eraill sy'n gwerthu stwff TRAIDCRAFT yn barod, neu sydd am wybod rhagor am y fenter, cysyllter â Lun Rowlands ar Gaerdydd 563832 neu â'r Trefnydd Rhanbarthol, Judith Billingham, ar Gaerdydd 567249.

---

## EISTEDDFOD FLYNYDDOL CYMDEITHAS DYSGWYR CYMRAEG MORGANNWG A GWENT.

Fe'i cynhaliwyd yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy ar Nos Fercher yr 11eg o Ebrill.
Daeth dau gant ynghyd a chafwyd cystadlu brwd. Beirniadwyd y canu gan Judith James, athrawes gerdd yn Ysgol Gyfun Glantaf a'r adrodd gan Hannah Roberts sy'n gweithio i'r BBC a Lena Pritchard Jones fu'n cloriannu'r cynnyrch llenyddol. Enillwyd cwpan yr Eisteddfod am y marciau uchaf gan Ganolfan Oedolion Pen-y-Bont -ar-Ogwr, a hynny am yr ail dro yn olynol. Arweinwyr y noson oedd Garwyn Davies, Penarth a Julia Beasley, Dinas Powys a'r Ysgrifenyddes oedd Falmai Griffiths, Rhiwbeina. Eluned Davies, Sarth, Pentyrch oedd y beirniad ar y cystadleuthau coginio a gwin cartre a Mrs. Potter a chyd-athro iddi yn Ysgol Gyfun Glyn Derw, Trelai oedd y beirniaid Celf a Chrefft. 'Roedd y safon yn uchel a chanmolwyd y gwaith gan y beirniaid.

---

## GWLEDD MIS MAWRTH YN RHIWBEINA.


Trefnodd Pwyllgor Dysgwyr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sy'n dod i Gaerdydd yn 1985 wledd i godi arian at gronfa'r Eisteddfod yn Neuadd Goffa Rhiwbeina ar Nos Sadwrn, y 10fed o Fawrth. Daeth dros chwe deg ynghyd i fwynhau'r wledd saith cwrs a baratowyd gan Avril Jones Pen-y-lan ac aelodau'r Pwyllgor a gweinyddwyd wrth y byrddau yn ogystal a chyfrannu eitemau cerddorol gan aelodau o Gôr Canolfan yr Urdd. Cafwyd noson ardderchog ac 'roedd yr elw dros ddau gan punt. Hyd yn hyn mae Pwyllgor y Dysgwyr wedi llwyddo i godi £2,800 tuag at Gronfa'r Eisteddfod ac mae bron i flwyddyn i fynd cyn yr Eisteddfod. Bwriedir cynnal Wlpan arall yn y Flwyddyn Newydd i godi mwy o arian i'r gronfa ac mae nifer o gynlluniau eraill ar y gweill megis Sadwrn Siarad a Pharti Nadolig y Dysgwyr.

---

## CYMANFA GANU RHIWBEINA.

Ni chynhelir Cymanfa Ganu yn Rhiwbeina ar Nos Sul yr 20fed o Fai fel yr hysbyswyd yn y 'Dinesydd' y mis diwethaf gan fod dwy gymanfa arall yr un noson sef Cymanfa'r Crwys ac un arall yn Neuadd Dewi Sant! Bwriedir cynnal Cymanfa yn Rhiwbeina rywbryd yn yr Hydref nawr.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn   RHIF 42



AR DRAWS

6. Gallai cael dwfr gorau ddangos y ffordd i godi'r menyn i gyd o'r gasgen. (5,1,7)
8. Y mae D.G. yn dangos ei fod yn synied yn uchel am rywun, rywsut. (6)
9. Un bach sy'n sefyll ar yr hiniog. (5,3)
10. "Rhoi angen un rhwng y ——" (Dewi Wyn o Eifion) (3)
11. Nifer o gerddorion yn cyd-ganu. (6)
12. Ymdrechaf i gyfnewid y bedwaredd llafariad am yr ail a chael tro yng nghwt y pwll nofio. (8)
14. Bu iddo arddel wrth ddosbarthu cnau yn y byd. (7)
16. Swyddogaeth y dewin? (7)
20. Myfiol. (8)
23. Llysieuyn sy'n gwneud pawb yn unigolion? (6)
24. "Ni ddiffydd lin yn mygu, Af —— yn ddifraw". (Thomas Wiliam, Bethesda'r Fro) (3)
25. Fe fedr ychen talog ddangos eu bod wedi syllu ar rywbeth. (8)
26. Estyll a phedol i godi caban dros dro. (6)
27. Cael bardd i droi yn enillydd y gamp brydyddol. (4,9)

I LAWR

1. Pentre John Jones, (a Fanny?) (8)
2. Hyder y myfi. (8)
3. "Heddiw'r ffynnon a ———" (W.W.) (7)
4. Paratoi a byw yn ddiwastraff. (6)
5. Tirio wrth gymysgu glo Nia. (6)
6. Cyflawnu'r cyfamod. (4,1,8)
7. "Fel hyn rwy'n edrych ar bethau", medd J.Roberts Wilias. (4,2,7)
13. Cwrs. (3)
15. Fe wnawn hyn wrth fynd. (3)
17. Anghofiais bopeth o'm cwmpas pan hoeliwyd fy sylw. (8)
18. Bwrir Dei i annhrefn pan geisia ddweud yr hyn a arfaethir. (8)
19. Llw bach dof yn cyhoeddi melltith ar ddyrgioni diniwed. (5,2)
21. Un dydd fel hyn a gân Trebor. (2,1,3)
22. Mae Bronwen yn wyllt pan gaiff ei galw wrth yr enw hwn. (6)

DATRYSIAD RHIF 41.

AR DRAWS. 1. ANESMWYTHYD; 6. HYNT; 9. DIWYLLIEDIG; 10. YDYM; 13. DIGWMWL; 15. ADWAITH; 16. NAD YW E; 17. Gweler 4 i lawr; 18. OERLLYD; 20. BYRDDIO; 21. DIFATER; 22. ISAF; 25. GORMODIAITH; 26. NODI; 27. DIFREINIOL.

I LAWR. 1. AWDL; 2. ELWA; 3. MELLTITH; 4. (a 17 ar draws) Y BEDWAREDD SALM AR BYMTHEG WEDI'R CANT; 5. YN IAWN; 7. YMDRYBAEDDU; 8. TYMHESTLOG; 11. RHAGBROFION; 12. CWSMERIAID; 13. DILEWYD; 14. LABRWYR; 19. DIGONI; 20. BEUDAI; 23. PABI; 24. ETHOL.

Gweler Enillwyr Croesair Rhif 41 ar dudalen 7

Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg gwerth £5 y mis hwn eto. Ysgrifennwch eich enw, neu ffugenw, a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair a'i anfon erbyn Mai 25ain at Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed.

HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD